# Gwahanu plant mewn sefydliadau troseddwyr ifanc – adolygu'r cynnydd

Prif Arolygydd Carchardai EF

Hydref 2024








# Cynnwys

Cyflwyniad ........................................................................................................ 3

Section 1 Cefndir ............................................................................................ 4

Section 2 Crynodeb o'r canfyddiadau ............................................................... 5

Section 3 Cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol ......................................... 6

Appendix I Methodoleg, diffiniad a disgwyliadau ........................ 11

# Cyflwyniad

Er bod nifer y plant sydd mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc wedi gostwng i lai na 400, mae’r plant sy’n cael eu cadw ar hyn o bryd ymysg y rhai mwyaf heriol a bregus yn y wlad.

Yn 2020 cyhoeddodd fy rhagflaenydd adroddiad thematig, *Gwahanu plant mewn sefydliadau troseddwyr ifanc*. Mae'r canfyddiadau’n frawychus: roedd rhoi plant mewn caethiwed ynysig yn digwydd yn eang, a byddent yn treulio dros 22 awr y dydd dan glo yn eu celloedd heb gael dim goruchwyliaeth na chyswllt ystyrlon â neb. Mewn ymateb, dywedodd Wendy Morton, y Gweinidog dros gyfiawnder ieuenctid:

> ‘Mae’n anodd darllen yr adroddiad hwn a pheidio â dod i’r casgliad ein bod yn gwneud cam aruthrol â rhai o’r plant yn ein gofal – mae hynny’n gwbl annerbyniol ac rwy’n benderfynol na fydd hyn yn parhau.’

Mae’n ddigalon gweld, bedair blynedd yn ddiweddarach, fod bron pob un o’r methiannau hyn yn parhau. Yn 2023–24, mae lefelau uchel o drais ac anhrefn wedi bod yn amlwg iawn mewn sefydliadau troseddwyr ifanc. O ganlyniad, mae 479 o blant wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion, naill ai oherwydd eu bod yn peri risg i ddiogelwch neu oherwydd eu bod wedi dewis aros yn eu celloedd, yn bennaf oherwydd eu bod yn poeni y caent eu dwyn i mewn i’r diwylliant treisgar neu oherwydd eu bod yn ofni mentro allan.  Er bod rhai plant wedi cael cefnogaeth ac addysg dda, profiadau digalon gafodd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn y ddalfa.

Gwelsom fod llawer o blant yn dal i gael eu rhoi mewn caethiwed ynysig a ddim yn cael y cyfle i wneud y pethau sylfaenol, fel ymarfer corff. Roedd yr arweinwyr yn methu â sicrhau bod y rhan fwyaf o'r plant sy’n cael eu gwahanu yn cael digon o addysg ac ymyriadau eraill; mewn rhai achosion ychydig funudau’r dydd yn unig a gaent. Yn yr achosion gwaethaf, ar rai diwrnodau, nid oedd y plant yn gadael eu cell.

Dylai amser plant yn y ddalfa fod yn gyfle holl bwysig i weddnewid eu bywydau er mwyn rhoi iddynt y cyfle gorau i fyw bywydau heb droseddu ar ôl cael eu rhyddhau. Yn anffodus, mae'r adolygiad hwn yn canfod bod plant sydd wedi’u gwahanu yn dal i dreulio bron eu holl amser yn eu celloedd.

Mae’n gyhuddiad difrifol yn erbyn Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa fod plant yn dal i gael eu cadw yn yr hyn sy’n gyfystyr â chaethiwed ynysig, bedair blynedd ar ôl i ni gyhoeddi ein hadroddiad thematig. Mae’n gwbl annerbyniol eu bod yn cael eu gwahanu o dan yr amodau rydym yn eu disgrifio yn yr adroddiad hwn, gyda’r posibilrwydd o gael effeithiau niweidiol hirdymor ar eu hiechyd, eu hymddygiad a’u dysgu.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai EF
Awst 2024

# Section 1 Cefndir

1.1 Ym mis Ionawr 2020 cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EM adolygiad, *Gwahanu plant mewn sefydliadau troseddwyr ifanc*, a ddadlennai system sydd ddim yn gweithio ac sy'n achosi niwed aruthrol i blant.

1.2 Canfuom fod tua 10% o blant mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc wedi'u gwahanu oddi wrth eu cyfoedion, gyda'r rhan fwyaf yn treulio amser hir iawn yn eu cell heb fawr ddim cysylltiad â phobl, gyda llawer ddim yn cael 'pethau sylfaenol bywyd bob dydd'; canfuom hefyd wendidau mor fawr fel ein bod yn argymell dull gweithredu cwbl newydd, a bod yr arferion presennol yn cael eu dileu'.

1.3 Roedd yr adolygiad yn cynnwys 10 argymhelliad i gefnogi hyn; fe wnaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa dderbyn chwech o'r rhain yn llawn a phedwar yn rhannol yn eu cynllun gweithredu cyhoeddedig (Cynllun gweithredu *Gwahanu plant mewn sefydliadau troseddwyr ifanc* - GOV.UK (www.gov.uk)).

1.4 Mae ein hadroddiadau arolygu wedi parhau i dynnu sylw at ddefnyddio a goruchwylio gwahanu fel un o'r pryderon. Yn ystod arolygiadau a gynhaliwyd yn 2023-24, bu'r arolygwyr yn asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y 10 argymhelliad. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'n canfyddiadau.

# Section 2 Crynodeb o'r canfyddiadau

## Defnyddio gwahanu

2.1 Roedd poblogaeth gyfartalog Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn 2023–24 yn 440. Gwelsom fod gwahanu yn dal i gael ei ddefnyddio lawer iawn yn ystâd y Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Dangosodd data'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa y cafwyd 1,038 o achosion o wahanu a oedd yn cynnwys 480 o blant. Yn ein harolygon o blant o 2023-24, dywedodd bron i ddwy ran o dair (64%) fod cael eu cadw dan glo a'u hatal rhag cymysgu â phobl ifanc eraill yn cael ei ddefnyddio fel cosb.

**Ers i chi fod yma, ydych chi erioed wedi cael eich cadw dan glo a'ch atal rhag cymysgu gyda phobl ifanc eraill fel cosb?**

| Feltham A | Cookham Wood | Parc | Werrington | Wetherby |
|---|---|---|---|---|
| 50% | 76% | 63% | 70% | 61% |

Ffynhonnell: Arolwg plant Arolygiaeth Carchardai EF, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc Cymru a Lloegr, 2023–24

2.2 Roedd plant yn cael eu gwahanu am gyfnodau hir hefyd, gyda hyd 179 o achosion yn rhwng 21 diwrnod a 100 diwrnod, a 21 o blant yn cael eu gwahanu am dros 100 diwrnod.

2.3 Canfu ein harolygiadau fod trais ac anhrefn yn broblemau aruthrol ym mhob Sefydliad Troseddwyr Ifanc sy'n dal plant. Yn absenoldeb cynlluniau rheoli ymddygiad ysgogol, effeithiol, yr ymateb i'r gwrthdaro hwn yw gwahanu'r plant. Yn y rhan fwyaf o achosion, y plant yr aseswyd eu bod yn peri risg i eraill oedd yn cael eu gwahanu. Plant a oedd yn dewis hunan-wahanu, fel arfer oherwydd bod ganddynt ormod o ofn eu cyfoedion i ddod allan o'u celloedd, oedd gweddill yr achosion. Roeddem yn bryderus iawn o weld bod y plant hyn, a oedd yn dioddef bwlio a thrais, yn aml yn cael eu gwahanu am gyfnodau hir.

2.4 Roedd y model gwahanu ar draws yr ystâd yn amrywio rhwng safleoedd ac o fewn sefydliadau troseddwyr ifanc unigol. Ac eithrio Cookham Wood, roedd gan bob safle uned ddynodedig. Fodd bynnag, ym mhob safle gwelsom blant yn cael eu gwahanu yn yr ardaloedd preswyl arferol yn ogystal ag yn yr unedau dynodedig. Er nad yw'n dal ddim yn ddigon da, roedd profiadau plant a oedd yn cael eu cadw mewn unedau dynodedig yn well yn gyson na'r rhai a gâi eu gwahanu yn y lleoliad arferol.

# Section 3 Cynnydd yn erbyn argymhellion blaenorol

Yn 2020, fe wnaethom 10 o argymhellion ar gyfer gwella. Yn yr adran hon rydym wedi amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob argymhelliad.

**Argymhelliad:** Dylai'r modelau presennol o wahanu plant mewn sefydliadau troseddwyr Ifanc gael eu disodli gan system newydd sy'n rhoi iddynt yr un drefn ag a gaiff eu cyfoedion sydd heb eu gwahanu.

3.1 Ni welwyd dim newid ystyrlon yn y model gwahanu nac ym mhrofiadau'r plant a oedd yn cael eu gwahanu ers ein harolygiad thematig yn 2020, ac roedd llawer yn dal i gael eu gwahanu am gyfnodau hir. Roedd trefn ddyddiol niweidiol llawer o'r plant yn gyfystyr â'r diffiniad o gaethiwed ynysig ac roedd rhai o'r plant hyn yn cael eu caethiwo am amser hir iawn.

3.2 Yn ystod ein hymweliadau safle, nid oedd yr oruchwyliaeth yn galluogi'r arweinwyr cenedlaethol i ganfod faint o blant oedd wedi'u gwahanu nac am ba hyd, a chawsom nifer o setiau data gwahanol a oedd yn gwrth-ddweud ei gilydd. Ers hynny, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa wedi cyflwyno cofnod canolog manylach i roi sylw i hyn. Roedd y mesurau diogelu lleol ar gyfer plant a oedd wedi'u gwahanu yn cynnwys nifer fawr o archwiliadau brysiog a gâi ychydig iawn o effaith ar brofiad dyddiol y plentyn dan sylw fel arfer.

**Argymhelliad:** Dylai plant sydd wedi'u gwahanu gael mynediad at ddiwrnod addysg cyfatebol i'w cyfoedion nad ydynt wedi'u gwahanu. Dylai hyn gynnwys rhyngweithio ystyrlon wyneb yn wyneb gydag athrawon.

3.3 Yn 2023–24 roedd yn dal yn wir nad oedd plant a oedd wedi'u gwahanu bron byth yn cael addysg. Nid oedd y rhai a gâi addysg yn cael dim byd yn agos i'r hawl statudol o 15 awr yr wythnos na'r un faint ag a gâi eu cyfoedion nad oeddent wedi'u gwahanu. Yn Cookham Wood, er enghraifft, roedd 37 o blant wedi cael eu gwahanu am gyfanswm o 453 diwrnod mewn un mis. Yn ystod yr amser hwn, ni chafodd y plant hyn ond 21 awr o addysg; mae hyn yn llai na thri munud y plentyn y dydd ar gyfartaledd. Roedd y darlun yn fwy calonogol yn Feltham A, lle'r oedd rhai plant a oedd wedi eu gwahanu yn dal i gael mynychu gwersi. Fodd bynnag, nid dyma'r norm i bob plentyn, ac nid oedd y cynnig o addysg allgymorth yn rheolaidd nac yn gyson.

**Argymhelliad:** Dylai plant sydd wedi'u gwahanu allu treulio amser allan o'u cell i ryngweithio â'r staff a'u cyfoedion, a dylent gael eu hannog i wneud hynny.

3.4 Yn Parc, roedd y plant a oedd wedi’u gwahanu yn fwy tebygol nag mewn safleoedd eraill o fod â threfn ddyddiol gynhyrchiol. Gwelsom rai o’r rhai mwyaf agored i niwed yn cymryd rhan mewn addysg, gweithgareddau cyfoethogi ac yn treulio hyd at naw awr allan o’u celloedd. Fodd bynnag, hyd yn oed yma roedd gan rai drefn llawer mwy caeth o oddeutu 90 munud y dydd allan o’u cell. Gwelsom hefyd rywfaint o arferion gwell yn Feltham A a oedd yn cynnwys cyflwyno ioga a chlinig llesiant, ynghyd â rhywfaint o addysg a gwaith ieuenctid, i rai o’r plant a oedd yn cael eu gwahanu.

3.5 I’r rhan fwyaf o’r plant hyn, anaml iawn y caent gyfle i dreulio amser yn rhyngweithio â staff a chyfoedion ac roeddent yn treulio’u holl amser bron dan glo ar eu pen eu hunain yn eu celloedd.

3.6 Ers ein harolygiad thematig, roedd uned gwahanu Phoenix yn Cookham Wood wedi cael ei chau, ac adeg yr adolygiad hwn, y bwriad oedd ei defnyddio fel cyfleuster allgymorth ar gyfer plant sy’n cael eu gwahanu. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fawr o blant a oedd yn cael eu gwahanu (chwarter y boblogaeth), a diffyg staff a chynllunio gwael, nid oedd y cyfleuster ar gael i lawer ohonynt, ac o’r herwydd ychydig iawn o gyfle a gaent i ryngweithio’n ystyrlon o dydd i ddydd gyda'r staff.


3.7 Gwelsom dystiolaeth nad oedd rhai plant a phobl ifanc yn Cookham Wood bron byth yn dod allan o’u celloedd. Yn yr achos gwaethaf, roedd un plentyn dim ond yn cael amser yn yr awyr agored ar un ran o dair o’r dyddiau pan oedd wedi’i wahanu. Dangosai’r cofnodion fod yr amser prin hwn allan o’r gell weithiau’n cael ei ganslo oherwydd ymddygiad y plentyn neu oherwydd nad oedd staff yn gallu hwyluso hyn.

**Argymhelliad:** Dylai pob plentyn sy’n cael ei wahanu allu treulio awr yn gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored bob dydd.

**Argymhelliad:** Dylai plant sy’n cael eu gwahanu allu cael cawod a galwad ffôn bob dydd.

3.8 Gwelsom wahaniaethau clir yn arferion dyddiol plant sydd wedi’u gwahanu, o fewn sefydliadau troseddwyr ifanc a rhyngddynt. Roedd arferion dyddiol yn well ar unedau gwahanu dynodedig, ond roedd y rhai a oedd wedi’u gwahanu ar unedau preswyl yn cael llawer llai o gysondeb, yn aml oherwydd nad oedd ganddynt yr adnoddau i ddarparu’r pethau sylfaenol i blant, gan gynnwys ymarfer corff.





**Cell uned wahanu Feltham A (chwith) a chell wahanu Cookham Wood ar yr adain (dde)**

3.9 Roedd y rhan fwyaf o gelloedd ar gyfer plant sydd wedi’u gwahanu yn cynnwys yr offer angenrheidiol, ond roedd y rhai a oedd wedi’u gwahanu ar brif ardal breswyl yn aml yn elwa o fod â chawod yn eu cell. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu hyd yn oed lai o amser allan o’u cell neu lai o gyswllt â staff. Yn Wetherby, roedd rhai celloedd yn yr uned wahanu wedi cael eu hadnewyddu’n ddiweddar i gynnwys cawodydd yn y celloedd.



**Cell uned wahanu Wetherby (Anson)**

3.10 Roedd arweinwyr wedi derbyn yr argymhelliad y dylai plant gael awr y dydd yn yr awyr agored. Fodd bynnag, heblaw am yn uned wahanu Wetherby a Parc, dim ond hanner yr amser hwnnw a gaent yn aml, a gwelsom adegau pan na châi ei gynnig i blant bob dydd. Roedd yr amgylcheddau awyr agored yn amrywio rhwng y sefydliadau

troseddwyr ifanc. Yn Wetherby, treuliai'r plant eu hamser yn yr awyr agored mewn lle sy'n debyg i gawell, ond yn Cookham Wood, roedd y plant yn gallu defnyddio'r un iard ymarfer â'u cyfoedion nad oeddent yn cael eu gwahanu, ar amseroedd gwahanol.



**Iard wahanu Wetherby (chwith) ac iard ymarfer Cookham Wood (dde)**

**Argymhelliad:** Dylid dechrau creu cynllun i ailintegreiddio'r plentyn o'r diwrnod y caiff ei wahanu a dylai gynnwys targedau ymarferol sydd â therfyn amser ac sy'n canolbwyntio ar alluogi'r plentyn i ddychwelyd i'r drefn arferol ar y cyfle cyntaf.

3.11 Gwelsom fod y gwaith cynllunio ar gyfer ailintegreiddio yn annigonol, ac nad oedd yn aml yn dechrau ar ddiwrnod y gwahanu.

3.12 Gwelwyd diffyg ffocws ar ddirwyn y cyfnod gwahanu i ben ac ar ailintegreiddio plant i grwpiau cymdeithasol, ac roedd hyn yn arwain at gyfnodau hir o wahanu. Yn Wetherby, roedd y cynlluniau'n aml yn trafod symud plant i ran arall o'r ardal wahanu a elwid yn landin cynnydd. Er y gwnaed hyn â'r bwriadau gorau, roedd yn aml yn cynyddu'r cyfnod gwahanu.

3.13 Roedd yr amser byr i fod allan o'r gell ac i ryngweithio ag eraill yn golygu nad oedd y plant yn cael llawer o gyfrifoldeb na chyfle i ddangos bod eu hymddygiad wedi gwella fel rhan o'r cynlluniau ailintegreiddio.

**Argymhelliad:** Dylai mesurau diogelu ar gyfer plant sydd wedi'u gwahanu gynnwys cyswllt ystyrlon rheolaidd gyda rheolwr sydd â'r awdurdod i wneud newidiadau i sefyllfa'r plentyn.

3.14 Dylai un o'r rheolwyr sydd ag awdurdod i wneud newidiadau i sefyllfa'r plant fod yn ymweld â nhw bob dydd; dylai'r tîm gofal iechyd a thîm y gaplaniaeth hefyd fod yn ymweld â'r plant. Mae'r archwiliadau hyn yn ffordd bwysig o ddiogelu lles plant, oherwydd fe all cael eich gwahanu am gyfnodau hir gael effaith fawr ar iechyd meddwl.

3.15 Er y gwelsom fod y rhan fwyaf o'r archwiliadau'n cael eu cynnal, nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ystyrlon. Mewn cofnodion a welsom, yr unig beth a wnâi rhai rheolwyr oedd gofyn a oedd y plentyn eisiau mynegi pryder, yn hytrach na dechrau sgwrs neu chwilio am arwyddion o ddirywiad mewn iechyd meddwl neu les.

3.16 Yn Werrington roeddem yn bryderus o weld plant yn cael eu gwahanu heb yr awdurdod priodol, fel sgriniadau gofal iechyd. Gwelsom dystiolaeth bod rhai plant a phobl ifanc wedi cyrraedd yn ddiweddar ac wedi cael eu gwahanu'n answyddogol am sawl diwrnod. Gwelsom hefyd ddwy ffeil lle'r oedd yr adolygiad mwyaf diweddaraf ar goll. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod rhai plant a phobl ifanc wedi cael eu rhyddhau o'r cyfnod gwahanu, ond nad oedd staff yr uned yn ymwybodol o'r penderfyniad, ac nad oeddent felly wedi cael dychwelyd i'r drefn arferol.

**Argymhelliad:** Dylai trefniadau goruchwylio alluogi rheolwyr cenedlaethol i fonitro faint o blant sydd wedi cael eu gwahanu ac am ba hyd, a monitro hefyd y drefn y mae'r plant hyn yn ei chael. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon.

3.17 Roedd y goruchwylio'n dal i fod yn annigonol. Roedd data'n awr yn cael ei gasglu'n ganolog, ond yn y rhan fwyaf o'r sefydliadau troseddwyr ifanc nid oedd hwn yn cyfateb i'r data lleol. Er enghraifft, roedd cronfa ddata ganolog Feltham A yn cofnodi 240 achos o wahanu am gyfnod o 12 mis, ond 289 oedd yn y cofnod lleol. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd nad oedd arweinwyr cenedlaethol yn cyfrif rhai achosion o wahanu fel rhai 'wedi'u gosod' neu 'dan oruchwyliaeth'.

3.18 Gwelsom hefyd lefelau amrywiol o oruchwyliaeth ar gyfer y gwahanu yn lleol: nid oedd cyfarfodydd bob amser yn cael eu cynnal neu nid oedd llawer yn bresennol. Er gwaethaf y lefelau uchel a'r cyfnodau gwahanu estynedig, doedd dim gwaith cynllunio strategol i'w weld i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

**Argymhelliad:** Dylai plant sydd angen asesiad iechyd meddwl gael un yn ddi-oed.

**Argymhelliad:** Dylid trosglwyddo plant yr aseswyd bod angen gwely iechyd meddwl arnynt o fewn pythefnos, yn unol â chanllawiau cenedlaethol y GIG.

3.19 Roedd plant a oedd angen asesiad iechyd meddwl nawr yn cael un mewn da bryd, ond er gwaethaf ymdrechion staff lleol roedd rhai yn dal i orfod aros dros bythefnos gan nad oedd digon o welyau ar gael mewn ysbytai.

# Appendix I    Methodoleg, diffiniad a disgwyliadau

Fe wnaethom ymweld â phob un o'r pum Sefydliad Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr (cafodd pob plentyn ei drosglwyddo o Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF Cookham Wood erbyn diwedd mis Mai 2024 cyn iddo gael ei gofrestru'n safle i oedolion ym mis Gorffennaf 2024) ac fe wnaethom adolygu triniaeth ac amodau plant sy'n cael eu gwahanu. Fe wnaethom adolygu dogfennau, arsylwi'r arferion presennol a siarad â phlant ac arweinwyr i lunio barn am y cynnydd.

Mae'r term 'gwahanu' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle nad yw plant yn gallu cymysgu gyda'u cyfoedion na mynychu gweithgareddau yn y ffordd arferol a gall gynnwys:

- gwahanu o dan un o reolau penodol Sefydliad Troseddwyr Ifanc (rheol 49)
- penderfyniad plentyn i hunan-ynysu oddi wrth ei gyfoedion
- effaith cosb sy'n cyfyngu ar eu mynediad at gydnabod ac sy'n eu cyfyngu i'w cell am gyfnodau hir.

Gall unrhyw un o'r rhain ddigwydd mewn uned wahanu ddynodedig neu yng nghell y plentyn yn y lleoliad arferol.

> Yn ein disgwyliadau ar gyfer cadw plant dan glo – y meini prawf a ddefnyddiwn i asesu triniaeth ac amodau plant sy'n cael eu cadw'n gaeth - rydym yn nodi'r canlynol:
>
> - Dim ond gyda'r awdurdod priodol y caiff plant eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion, a chaiff hynny ei wneud yn ddiogel, yn unol â'u hanghenion unigol, am resymau priodol ac nid fel cosb.
>
> - Ni chaiff plant eu gwahanu oddi wrth eraill neu eu symud o'u lleoliad arferol dim ond gyda chaniatâd priodol a chânt eu lleoli am resymau priodol. Ni chaiff plant eu gwahanu fel cosb.
>
> - Mae plant y mae eu hymddygiad yn golygu eu bod yn cael eu gwahanu dros dro oddi wrth eraill yn cael eu lleoli mewn amgylchedd addas lle mae eu hanghenion unigol yn cael eu bodloni'n llwyr.
>
> Disgwyliadau – Arolygiaeth Carchardai EF (justiceinspectorates.gov.uk).

Rydym yn cydnabod bod plentyn weithiau'n cael ei wahanu er ei les ei hun oherwydd y risgiau iddo. Pan fydd hyn yn digwydd, rydym yn disgwyl i reolwyr sicrhau bod y plant sydd wedi'u gwahanu yn cael eu rhoi mewn uned lle gallant gael yr un gweithgaredd dyddiol â'u cyfoedion sydd heb eu gwahanu, gan gynnwys addysg. Rydym hefyd yn disgwyl i staff weithio gyda phlant i roi sylw i'r rhesymau dros eu gwahanu a chynllunio ar gyfer eu dychwelyd i drefn arferol cyn gynted â phosibl.

Yn ein hadroddiad thematig yn 2020 (*Gwahanu plant mewn sefydliadau troseddwyr ifanc*) fe wnaethom amlinellu tystiolaeth gan Gymdeithas Feddygol Prydain ar y niwed seicolegol y mae gwahanu yn ei achosi, a'r ffaith bod y symptomau'n cynyddu gyda hyd y gaethiwed. Roedd hyn yn cynnwys 'pryder; iselder; gelyniaeth, cynddaredd ac ymddygiad ymosodol; aflonyddwch gwybyddol; gorsensitifrwydd i ysgogiadau amgylcheddol; paranoia; ac yn yr achosion mwyaf eithafol, rhithweledigaethau a seicosis.' Dywedwyd hefyd fod plant sy'n cael eu hynysu hyd yn oed am gyfnodau byr yn gallu cael 'paranoia, gorbryder ac iselder', a bod y rhai sy'n cael eu hynysu am gyfnodau estynedig 'yn llawer mwy tebygol o geisio lladd eu hunain neu o gyflawni hunanladdiad'.

Hawlfraint y Goron 2024

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lwytho i lawr yn: [Ein Hadroddiadau – Arolygiaeth Carchardai EF (justiceinspectorates.gov.uk)](justiceinspectorates.gov.uk)

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai EF
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
Lloegr

Pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.